CAIS I FOD YN DDARPARWR GOFAL DYDD COFRESTREDIG

HOLIADUR I ASESU ADDASRWYDD

Rhaid i Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) fod yn hyderus fod Person Cofrestredig yn deall ei swyddogaeth a'i gyfrifoldebau fel darparwr gwasanaeth gofal dydd cofrestredig.

Cwblhewch yr holiadur hwn a'i gyflwyno gyda'ch ffurflenni cais a'ch dogfennau. Ystyrir eich cais yn ei gyfanrwydd, ac efallai y cewch eich galw i gyfweliad er mwyn trafod unrhyw faterion sy'n codi ohono, pe byddai angen.

Deddf Plant 1989 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Safonau Gofal 2000

Er mwyn cael cymorth i gwblhau'r holiadur hwn, dylech gyfeirio at y rheoliadau canlynol:

- Rheoliadau Cofrestru Gofal Cymdeithasol a Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2002
- Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2002
- Rheoliadau Datgymhwyso rhag Gofalu am Blant (Cymru) 2004
- Rheoliadau Atal Dros Dro Ddarparwyr Gofal Dydd a Gwarchodwyr Plant (Cymru) 2004

Bydd angen i chi hefyd fod yn gyfarwydd â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol sy'n berthnasol i faes eich gwasanaeth.
Gallwch ddod o hyd i'r rhain i gyd ar wefan AGGCC:
www.aggcc.org.uk

Efallai y byddwch hefyd am gysylltu â'ch sefydliad cefnogol (Clybiau Plant Cymru Kids Clubs; Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd; Mudiad Ysgolion Meithrin; Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru).

Enw'r Person Cofrestredig/Unigolyn Cyfrifol:
Cyfeiriad: Rhif ffôn: Cyfeiriad e-bost:
Enw'r lleoliad:
Enw'r person â gofal yn y lleoliad:

1. Pa brofiad a sgiliau sydd gennych a fydd yn eich helpu yn eich swyddogaeth fel Person Cofrestredig/Unigolyn Cyfrifol? *(gallai hyn gynnwys unrhyw brofiad personol neu broffesiynol, ac efallai na fydd yn gysylltiedig â gofal plant)*
2. Beth fydd eich swyddogaeth a'ch cyfrifoldebau fel Person Cofrestredig, yn ôl yr hyn yr ydych yn ei ddeall?
3. Beth yw swyddogaeth a chyfrifoldebau'r Person â Gofal yn eich lleoliad, yn ôl yr hyn yr ydych yn ei ddeall?
4. Dywedwch wrthym sut y bydd y Person â Gofal yn cael ei gefnogi er mwyn iddo gael cyfleoedd ar gyfer: • Hyfforddiant a datblygiad proffesiynol • Gwerthusiad • Cymorth rheolwyr o ddydd i ddydd

5. Pa gofnodion sydd raid i chi eu cadw ynglŷn â:

- **Phlant** *(cyfeiriwch at Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2002; rheoliad 18, Atodlen 3)*

- **Iechyd a Diogelwch** *(cyfeiriwch at Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2002, rheoliad 12)*

- **Unrhyw aelod staff y byddwch yn ei gyflogi a gwirfoddolwyr** *(cyfeiriwch at Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2002, rheoliad 16 Atodlen 2)*

6. Dywedwch wrthym pa newidiadau a digwyddiadau y mae angen i chi hysbysu AGGCC amdanynt *(cyfeiriwch at Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2002, rheoliadau 3, 6, 10 a 19, Atodlen 4).*

7. Sut y byddwch chi'n sicrhau bod y ddarpariaeth yn gweithredu'n ddidrafferth ac yn bodloni ei hamcanion, gan gyfeirio at y datganiad o ddiben, staffio, polisïau a gweithdrefnau?

8. Sut y byddwch chi'n sefydlu, yn monitro ac yn cynnal ansawdd eich gwasanaeth? *(cyfeiriwch at Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2002, rheoliad 3A)*
9. Sut yr ydych chi'n bwriadu sicrhau bod eich dealltwriaeth a'ch gwybodaeth am ofal dydd yn gyfredol?

Llofnod y Person Cofrestredig/Unigolyn Cyfrifol arfaethedig:
Dyddiad:

Diolch i chi am gwblhau'r holiadur hwn. Bydd yn ein helpu ni i asesu eich cais. Ar ôl ystyried eich cais, bydd arolygydd yn cysylltu â chi ac yn rhoi gwybod i chi a oes rhaid i chi wneud unrhyw beth arall.

Darllenwch a llofnodwch y datganiad canlynol:

Os bydd fy nghais i fod yn Berson Cofrestredig yn llwyddiannus, deallaf mai fi sy'n gyfrifol yn gyfreithiol am gofrestriad parhaus *(enw'r lleoliad)* **hyd y byddaf wedi hysbysu AGGCC yn ysgrifenedig a hysbysu unrhyw Berson Cofrestredig arall am y dyddiad y byddaf yn rhoi'r gorau i fod yn Berson Cofrestredig.**

Rwyf yn deall na chaiff y lleoliad barhau i fod wedi'i gofrestru gan AGGCC os nad oes Person Cofrestredig ar ei gyfer.

Llofnod:
Dyddiad: